

Hollol ddynol, hollol fyw

“Oherwydd, cyn eu bod hwy, fe’u hadnabu, a’u rhagordeinio i fod yn unffurf ac unwedd â’i Fab.” (adn. 29)

Beth am ddarllen Rhufeiniaid 8:28–39 ac yna myfyrio

Yn y darlenniad cofiadwy yma mae geiriau Paul yn gosod y syniad o esiampl Crist ar y raddfa fwyaf posibl. Mae’n dweud mai Iesu Grist yw’r templed mae Duw’n gweithio iddo wrth drawsnewid ein bywydau. Dywedodd John Stott: “Pe byddai raid i ni grynhoi mewn un frawddeg fer beth ydy ystyr bywyd, pam y daeth Iesu Grist i’r byd yma i fyw a marw ac atgyfodi, a beth mae Duw yn ei wneud yn y broses hanesyddol hirfaith ... byddai’n anodd dod o hyd i eglurhad mwy cryno na hyn: *‘Mae Duw yn gwneud bodau dynol yn fwy dynol drwy eu gwneud yn fwy tebyg i Grist.’*” Nod y cyfan mae Duw wedi’i wneud ac yn ei wneud er mwyn ein hachub a’n dwyn i ogoniant ydy ein gwneud yn fwy tebyg i Iesu. Cydymffurfio â Iesu ydy’r daioni terfynol mae’r Ysbryd yn gweithio tuag ato wrth weu bwriad pennaf Duw i amgylchiadau amrywiol ein bywydau.

Wrth gwrs, dydy hyn ddim yn golygu y bydd pob dyn yn Iddew tair ar ddeg ar hugain mlwydd oed yn y pen draw! Fydd dim o’n hunigoliaeth yn cael ei golli wrth ddod yn fwy tebyg i Iesu. Mae’r cwestiwn: “I beth mae’r bywyd dynol go iawn yn debyg?” yn cael ei ofyn yn aml, a’r ateb ydy: “Iesu”. Wrth edrych ar Iesu, gallwn ddweud: dyna’r bywyd dynol go iawn! Ef yw dyn perffaith Duw.

Mae datganiad John Stott bod Duw yn gwneud bodau dynol yn fwy dynol trwy eu gwneud yn fwy tebyg i Grist yn werth ei ystyried. Po debycaf y byddwch i Iesu, yna mwyaf dynol fyddwch chi – ac yn fwy ‘cwbl fyw’.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 1:1–14; 1 Cor. 15:45–57; Phil. 3:21; 1 Ioan 3:1–3

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam ddaeth y Gair yn gnawd?
2. Delw pwy fydd arnon ni, yn ôl Paul ac Ioan?

Gweddi

Rasol Dad, helpa fi o ddydd i ddydd i ddod yn fwy tebyg i Iesu, oherwydd dw i’n gweld fy mod yn fwy byw po debycaf ydw i iddo ef. Dw i’n dymuno bod ‘yn fyw’, nid ar fy nghyfer fy hun yn unig, ond er mwyn gallu ei rannu ag eraill. Yn enw Iesu. Amen.